# Cenn@d

MAWRTH 19 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 212


## Tynnu lawr a thynnu ’mlaen

Pan fydd haneswyr y dyfodol yn cofnodi hanes Cristnogaeth yng Nghymru rhwng 1975 a 2025, bydd yr adroddiad yn ymddangos fel cyfnod o leihad ystadegol, gostyngiad yn nifer yr aelodau, cau capeli, gweinidogaeth wahanol i’r hanner can mlynedd blaenorol ac ati. Gobeithio bydd yr haneswyr yn sylwi bod yr eglwysi wedi cael gwell gafael ar gymdeithas yn gyffredinol, ac yn rhoi pwyslais ar faterion gwleidyddol a gweinyddol ein cenedl a’n byd. Bu’r eglwysi’n lobïo o blaid cyfiawnder, o estyn allan at y digartref, yr unig a’r llesg, a bu hyrwyddo banciau bwyd yn ddatblygiad cynyddol yn ein mysg. Dangoswyd mwy o barch at ferched yn gyffredinol dros y cyfnod. Gwasanaethodd dwy ferch fel esgobion yn yr Eglwys Wladol, mwy o ferched yn ficeriaid ac yn weinidogion anghydffurfiol, merched yn ysgrifenyddion cyffredinol eu henwadau, ac yn swyddogion mewn eglwysi. Gwelwyd hefyd fwy o gydymdeimlad â phobl hoyw, ac nad yw pobl LGBTQ+ yn cael eu hystyried yn ysgymun bellach.



Llun: Libby Penner, Unsplash.com

O bosibl bydd yr haneswyr yn craffu ar y ffaith bod arddull pregethu yn llai o areithio ond yn fwy o drafod ac egluro. Datblygodd yr arfer i’r aelodau gymryd at gyfrannu’n llafar i oedfaon, a defnyddiwyd cyfarpar digidol i drosglwyddo oedfa’n fyw o’r adeilad i’r cartref. Addaswyd ein ffordd o feddwl i oes y ffonau symudol, a throsglwyddo’r oedfa’n uniongyrchol ar y We. Nid yw’r cymunedau eglwysig mor ‘hen ffasiwn’ ag y bydd rhai’n honni. Prin fod unrhyw un yn codi aeliau pan fydd pobl yn mynychu oedfaon mewn dillad anffurfiol a bod arweinydd yr oedfa yn gyfforddus i drafod gyda’r gynulleidfa weithiau fel rhan o’r cyflwyniad, fel pe bai mewn seiat.

Eto, mae ein hadeiladau yn medru bod yn anaddas mewn sawl ffordd, ac yn llesteirio addoliad anffurfiol. Flynyddoedd yn ôl, cofiaf ymweld â chynulleidfa gyda phedwar yn bresennol, ac yn eistedd mor bell ag oedd yn bosibl oddi wrth ei gilydd. Cofiaf eu cymell i’r sedd flaen ac roedd gwedd gynhesach yn eu mysg am eu bod yn agosach at ei gilydd. Prin fod cau capeli a datgorffori eglwysi yn ddiwedd y byd nac yn derfyn ar achos Iesu Grist. Arswydaf pan glywaf bobl yn datgan eu bod yn aelodau o gapeli, neu fod Anglicaniaid yn addoli mewn eglwysi. Adeilad yw capel, a chymdeithas o gredinwyr yw eglwys. Nid addolwyr adeiladau mohonom, ond teulu sy’n adnabod Duw fel ‘tad cariadlon’ ac Iesu fel ‘y ffordd, y bywyd a’r gwirionedd’.

Pryderaf fod yna eglwysi sy’n rhoi cymaint o ymdrech ac arian i gadw drysau’r capel ar agor, ond heb wario arian nac amser ar eu cenhadaeth leol. Mae yna fanteision ac anfanteision wrth ymgynnull mewn neuadd bentref neu ddosbarth ysgol, a phrofodd Ebeneser (A), Caerdydd, eu bod yn eglwys ffyniannus er iddynt ffarwelio ag adeilad braf yn Stryd Siarl, Caerdydd. Gwn fod swyddogion enwadol wedi ceisio cymell eglwysi i ddod ynghyd i un adeilad mewn sawl bro, boed hynny ar lefel enwadol neu gydenwadol, ac i’r swyddogion lleol ddal ’nôl rhag iddynt fod y genhedlaeth a ollyngodd afael ar eu ‘cartref ysbrydol’.

Wrth gwrs fod llawer o sentiment a gwerthfawrogiad o etifeddiaeth ynghlwm yn ein capeli, ac efallai nad oes yr un awyrgylch neu urddas yn perthyn i adeilad modern, beth bynnag ei faint a’i gynllun. Ond prin y byddai unrhyw un am ymolchi mewn twba metel o flaen y tân, pan fyddai defnyddio cawod yn bosibl. Ymdrochi mewn dwyfoldeb yw addoliad, fel dywedodd Rosa Hunt mewn erthygl yn *Cenn@d* yn ddiweddar. Mae canu cynulleidfaol mewn pedwar llais yn medru bod yn ddyrchafol, ond amcan y canu yw clodfori Duw, nid bod yn ymarfer cerddorol ar gyfer cystadleuaeth eisteddfodol. Nod pregethu yw cyfathrebu gwirionedd a gwerthoedd Iesu i’r gwrandawyr, nid profi sgiliau areithio’r siaradwr, na rhannu rhagfarnau cymdeithasol/ gwleidyddol heb enwi Iesu unwaith. Yn bendifaddau, nid lle i ddweud storïau digrif yw pregeth, er y gall stori ddigrif fod yn gyfrwng rhannu neges Gristnogol.

Cynhelir trafodaethau cyson o fewn pob cyfundrefn i asesu ac adolygu ei darpariaeth, boed mewn addysg, gofal iechyd, diwydiant a difyrrwch, ac felly y dylai fod ym mywyd eglwysi hefyd. Parchwn ddoe, heb os, ond addolwn gyda’n gilydd er mwyn y presennol a rhannwn dystiolaeth o’n ffydd er mwyn yr yfory. Beth yw ein blaenoriaethau ni yn 2025?

*Denzil John*


Adroddiad ar waith Cyngor yr Ysgolion Sul
**Tudalen 3**

‘I’r Drindod heb wahân Rhown fawl ar gân i gyd’ – Credo Nicea a Chymru 2025 (rhan 2)
**Tudalen 5**

Mae help ar gael bob amser!
**Tudalen 8**

# Llwyddiant Apêl Talentau Gobaith

Da gennym gyhoeddi llwyddiant yr apêl Talentau Gobaith a gynhaliwyd yn ystod 2023–4 er mwyn cefnogi gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe.

Llwyddodd eglwysi ac unigolion ar draws teulu Undeb Bedyddwyr Cymru i gerdded dros fil o filltiroedd i godi arian ac estyn cefnogaeth i gymunedau yn Zimbabwe, oedd ymhell dros y nod gwreiddiol o 750 o filltiroedd. At hyn, fe lwyddwyd i godi cyfanswm o dros £25,000 at yr achos – gyda diolch mawr yn ddyledus i bob unigolyn a phob eglwys a gyfrannodd!

Dywedodd Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad:

> ‘Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn hynod falch o fedru codi arian ar gyfer Apêl Cymorth Cristnogol Zimbabwe, sef Talentau Gobaith, a diolchwn am y cyfle i ddysgu mwy am yr heriau dybryd a wynebir gan drigolion y wlad. Cawsom fwy nac un cyfle i sgwrsio dros y we gyda rhai o bartneriaid







> Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe a chlywed o lygad y ffynnon am yr anawsterau sy’n bodoli yno. Mawr obeithir y bydd ein cyfraniad tuag at y gwaith o ddatblygu dulliau newydd o amaethu yn wyneb newid hinsawdd yn gwneud gwahaniaeth a daliwn ati i weddïo dros y sefyllfa yno.’

Ychwanegodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru,

> ‘Rydym yn estyn diolch mawr am y rhodd arbennig gan eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru tuag at Apêl Talentau Gobaith. Mae wedi bod yn wych dilyn holl ymdrechion y flwyddyn. Wrth inni nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 eleni, mae grym anorchfygol gobaith yn ein galw i sefyll gyda chymunedau yn Zimbabwe ac ar draws y byd sydd yn wynebu tlodi dwys ac effeithiau’r argyfwng hinsawdd. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn chwarae rôl arbennig yn y gwaith hwn a bydd canlyniad yr apêl hon yn galluogi gwaith arloesol mewn partneriaeth â chymunedau lleol.’

Wrth i ni nodi’r llwyddiant, beth am gymryd ennyd i weddïo dros lwyddiant y gwaith ar lawr gwlad?

# Dilyn Iesu mewn byd o leisiau lluosog

Yn y byd heddiw rydym yn cael ein hamgylchynu gan lu o leisiau – syniadau, athroniaethau, a chredoau gwahanol sy’n ceisio cael ein sylw. Er bod y gwahaniaeth hwn yn adlewyrchiad o brofiadau dynol, mae’n cyflwyno her i Gristnogion: y demtasiwn i wanhau ein ffydd trwy ei chymysgu â dysgeidiaeth sy’n gwyro oddi wrth wirionedd yr Efengyl.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae’n hanfodol ein bod, fel dilynwyr Crist, yn aros yn gadarn yn ein hymrwymiad iddo ef a’i air.

Mae Iesu ei hun yn ein hatgoffa yn Ioan 14:6: ‘Myfi yw’r ffordd a’r gwirionedd a’r bywyd. Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwof fi.’ Y gwirionedd unigryw hwn yw canolbwynt ein ffydd.

Fel Cristnogion, rydym yn cael ein galw i ddilyn Iesu’n llwyr, nid fel un gwirionedd ymhlith llawer, ond fel yr unig wirionedd sy’n arwain at iachawdwriaeth. Nid neges o eithrio yw hon, ond neges o obaith: gwahoddiad i bawb dderbyn rhodd bywyd tragwyddol drwy Grist.

Y perygl o ganiatáu i ddysgeidiaeth o grefyddau eraill neu syniadau seciwlar ddylanwadu ar ein ffydd yw’r risg o gyfaddawdu. Rhybuddiodd yr Apostol Paul yr eglwys gynnar am hyn yn Galatiaid 1:6–7, gan ddweud, ‘Yr wyf yn synnu eich bod yn cefnu mor fuan ar yr hwn a’ch galwodd chwi trwy ras Crist, ac yn troi at efengyl wahanol. Nid ei bod yn efengyl arall mewn gwirionedd, ond bod rhywrai, yn eu hawydd i wyrdroi Efengyl Crist, yn aflonyddu arnoch.’ Pan fyddwn yn ychwanegu at yr Efengyl neu’n tynnu oddi arni, rydym yn lleihau ei phŵer ac yn colli golwg ar y gwir ryddid sydd i’w ganfod yng Nghrist.

Rhaid i’n heglwysi aros yn fannau lle mae gwirionedd tragwyddol y Beibl yn cael ei ddysgu a’i fyw. Dylai’r mannau hyn feithrin pobl yn eu ffydd a’u paratoi i wynebu heriau’r byd heb golli golwg ar Iesu. Dylem rannu’r Efengyl â’r byd yn gariadus, gan sefyll yn gadarn yn y gred mai dim ond yng Nghrist y mae iachawdwriaeth i’w chael (Actau 4:12).

Fel Cristnogion a gweinidogion yng Nghymru ac ymhellach, rhaid inni fod yn wyliadwrus a diogelu ein calonnau a’n meddyliau rhag dysgeidiaeth sy’n gwrthdaro â gwirionedd Gair Duw. Nid yw hyn yn golygu amharchu eraill; yn hytrach, mae’n golygu dal gafael yn gadarn yng ngoleuni Crist wrth gynnig ei gariad i’r rhai o’n cwmpas.

Gadewch inni beidio â chyfaddawdu ein ffydd, ond yn hytrach aros wedi ein hangori yn y gobaith sydd gennym yn yr Iesu.

Boed i ni ei ddilyn yn ffyddlon, gan ymddiried yn ei addewidion a phregethu ei enw mewn byd sy’n dyheu am glywed y Newyddion Da. Oherwydd, yn Iesu yn unig y mae bywyd, gobaith, a’r gwirionedd sy’n ein rhyddhau

*W. Rhys Locke*
*Castell-nedd*

# Adroddiad ar waith Cyngor yr Ysgolion Sul

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw sy'n crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2024. Yn 2019 bu i ni greu cynllun strategaeth pum mlynedd ar gyfer 2019–24, gyda'r pwyslais ar gynyddu ein gwaith digidol / gwefannau a lleihau ein gwaith argraffu print. Mae gennym bellach bum gwefan sy'n llawn gwybodaeth ac adnoddau ymarferol, yn ogystal â phresenoldeb ar Facebook, TikTok, X ac Instagram. Crëwyd sianel deledu Gristnogol ar YouTube hefyd, gan grynhoi ynghyd y miloedd o eitemau Cristnogol Cymraeg sydd i'w gweld ar y we.




Tra oedd ffocws y pum mlynedd diwethaf ar ddatblygu ein presenoldeb ar y we, a mwy o adnoddau 'digidol', bydd ffocws y ddwy flynedd nesaf – 2025/6 – ar ymestyn allan yn genhadol. Byddwn yn canolbwyntio ar waith ysgolion yn benodol, drwy ddatblygu adnoddau Cristnogol ar gyfer cefnogi eu gwaith a hefyd helpu eglwysi i ymestyn allan at eu hysgolion lleol yn y gymuned. Rydym wedi derbyn gwaddol arian elusen Mudiad Addysg Grefyddol Cymru, a bydd hwn yn cael ei wario dros y ddwy flynedd nesaf i wireddu rhai o'r amcanion uchod. Y prif adnoddau fydd dau lyfr lliw safonol gwreiddiol yn Gymraeg, un yn canolbwyntio ar hanes datblygiad y ffydd Gristnogol yng Nghymru a'r llall yn darlunio hanes y seintiau Celtaidd. Y gobaith yw eu cyfieithu i'r Saesneg yn ddiweddarach. Byddwn hefyd yn ceisio helpu eglwysi gyda chanllawiau sut i greu cysylltiadau â›u hysgolion lleol.

**Rhai llyfrau a gyhoeddwyd yn ystod 2024**

*Llyfr sticeri storïau Beiblaidd* – llyfr lliwgar fformat mawr, A3
*Llyfr sŵn anifeiliaid y Beibl* – llyfr bwrdd lliwgar gyda 50 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol
*Llyfr llechen Beiblaidd* – 40 stori Feiblaidd, sgrin ddigidol LCD a *stylus*
*Llyfr lliwio Beibl Bach Stori Duw* – 60 o luniau o'r Beibl poblogaidd hwn
*Gweddïo drwy'r Salmau* – 150 o weddïau gwreiddiol gan Euros Jones Evans yn seiliedig ar y Salmau
*Byw'r Weddi* – Trystan Owain Hughes yn trafod Gweddi'r Arglwydd
*Sut i Weddïo* – addasiad Meirion Morris o lyfr Pete Greig ar arweiniad i weddi
*Gair yn ei Bryd* – cyfrol o erthyglau gan Noel Davies
*Ambell gam drwy'r flwyddyn* – pregethau ac emynau gan Noel Davies
*Gair Duw ar lafar gwlad* – cyfrol yn olrhain tarddiad llawer o ymadroddion Cymraeg
*Ganwyd Iesu: llyfr sŵn y Nadolig* – llyfr pop-yp lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol
*Llyfr canu carioci Carolau'r Nadolig* – llyfr bwrdd lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n canu 6 charol wahanol
*Cyfres jig-sos y Gair* – 3 jigso newydd: Geni Iesu / Porthi'r Pum Mil / Arch Noa
*Eglwys y Bobl, 3* – myfyrdodau / anerchiadau Beiblaidd yn dilyn blwyddyn B y Llithiadur
*Dehongli Bywyd a Gwaith Ruth a Llyfr y Pregethwr* – esboniad gan Gareth Lloyd Jones
*Llythyr gobaith, llythyr cariad* – cyfrol ar hunan-les a gofal gan Glyn Wise

**Gwefannau**

**ysgolsul.com – adrannau newydd**

*Cyfres stori Duw* – 50 gwers ysgol Sul ar y we; cyflwyniadau PowerPoint Beiblaidd – 60 stori newydd; ffilmiau Beiblaidd – 30 newydd
*Llyfrau gwersi'r Gwir Ffordd* – 20 newydd: Gweddïo gyda phlant a chardiau gweddi; Cyswllt ysgolion; Plant mewn galar; y cwrs Gweddi a chwrs archwilio ffydd – Cwestiwn






(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Adroddiad ar waith Cyngor yr Ysgolion Sul*

*(parhad o dudalen 3)*

**cristnogaeth.cymru – adrannau newydd**
Iechyd a hunan-les; Cefnogi Dementia; Newid Hinsawdd; Grantiau a nawdd ariannol; Ffydd a chwaraeon; Ffydd a chefn gwlad; Gwaith ysgolion

**gair.cymru**
Ychwanegwyd tua 500 o ffeiliau i'w lawrlwytho

**gobaith.cymru**
Ychwanegwyd 32 cân Gristnogol gyfoes


**Teledu Cristnogol Cymru**
Ychwanegwyd sianeli newydd, gan gynnwys podlediadau y Cwmni Bach, deunydd astudiaeth Cwestiwn a chaneuon cyfoes yn Gymraeg

**Cyhoeddusrwydd a hyfforddiant**
Rhoddwyd sylw i'r gyfrol *Codi'r Llen: Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau* mewn rhaglen arbennig o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, a bu eitem ar *Llan Llanast* ar *Newyddion S4C*. Cyhoeddwyd erthyglau yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, *Cristion* ac ar ein tudalennau Facebook a chyhoeddwyd ein bwletin blynyddol *CYSylltiad* ym mis Hydref.

Fel rhan o waith CMN (rhwydwaith gwaith plant CTBI) cyflawnwyd gwaith ar ddau gwrs hyfforddiant, sef *Essential Children's Ministry* ac *Essential Family Ministry*, a fydd yn ymddangos ar blatfform digidol TheologyX dan nawdd Cliff College. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethon ni gymryd rhan mewn tair cynhadledd i drafod dyfodol gwaith plant – un yn Llundain yn trafod hyfforddiant gweithwyr a'r llall yn trafod cam-drin ysbrydol, ac un gynhadledd ar lefel Ewropeaidd (ECCE) yn Genefa.

**Medalau Gee**
Yn ystod 2024 cyflwynwyd 10 medal Gee mewn saith lleoliad gwahanol. Braf oedd gweld capeli llawn ar gyfer anrhydeddu selogion lleol.

Mewn dyddiau heriol, diolchwn am bob arwydd gobeithiol a welir ledled Cymru. Diolch am bob arweinydd a gwirfoddolwr sy'n ymdrechu i gynnal gweithgarwch i blant a'u teuluoedd. Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein hawydd fel Cyngor i gefnogi sefydlu mentrau newydd (neu aildanio gwaith sy'n dioddef), a'n parodrwydd i gyfarfod




i drafod opsiynau a'r hyn sy'n ymarferol a phosib o fewn ein cymunedau lleol.

Diolch am gefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Cyngor hefyd i'r gwaith – yn ariannol ac yn ymarferol. Daeth tymor Cadeiryddiaeth Jennie Hurd i ben ddiwedd y flwyddyn, a chroesawyd Mererid Mair i'r Gadair ym mis Ionawr. Trist yw cofnodi y bu farw Mr Idris Hughes, ein cyn-drysorydd, yn ystod yr haf wedi cyfnod o anhwylder. Coffa da amdano a diolch am ei dymor gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cael cyfle i groesawu Mrs Kathryn Morris atom fel trysorydd newydd, a diolchwn am yr arbenigedd sydd ganddi ym maes cyllid.

Yn dilyn marwolaeth Mrs Elisabeth James, ein Llywydd Anrhydeddus, yn 2023, yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor penodwyd Mr Rheinallt Thomas i'w holynu. Mae yntau hefyd wedi gwneud cyfraniad anfesuradwy i waith y Cyngor dros flynyddoedd lawer. Pasiwyd hefyd i gyhoeddi *Beibl Coffa Lliw* i blant er cof am Elisabeth James, gan ddefnyddio'r rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani i noddi'r gwaith.

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i wefan ysgolsul.com

Gan ddiolch am bob cydweithrediad ac ymddiriedaeth

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*

# ‘I’r Drindod heb wahân
## Rhown fawl ar gân i gyd’ – Credo Nicea a Chymru 2025 (rhan 2)

Y Parchg Simeon Baker, mewn pwyllgor ychydig fisoedd yn ôl, a awgrymodd y dylem drafod Credo Nicea yn Oedfa Ilston eleni. Petai pobl yn gwrando mewn arnom heno [21 Ionawr 2025], byddent yn synnu a rhyfeddu bod Bedyddwyr Cymru (o bawb!) yn trafod dogfen a luniwyd fil saith gant o flynyddoedd yn ôl mewn dinas yn Nhwrci dros y culdir o Istanbul, gan gyngor o esgobion a alwyd ynghyd gan yr Ymerawdwr Cystennin.

Y flwyddyn oedd 325. Erbyn hynny roedd y ffydd Gristnogol wedi ymledu o Jerwsalem ar draws yr hen fyd mor bell ag Ynys Prydain. Roedd hyn cyn i’r Saeson gyrraedd, cyn bod yr iaith Gymraeg wedi ymffurfio – Brythoneg oedd iaith y brodorion bryd hynny – a chyn i Dewi Sant a’i gyfoeswyr, Illtud a Theilo, Deiniol, Beuno a’r lleill, ganrif a hanner yn ddiweddarach droi cenedl newydd-anedig y Cymry at grefydd Iesu Grist. Pam felly galw’r esgobion ynghyd? Tua 13 blynedd yn gynharach roedd Cystennin wedi cael gweledigaeth o’r groes ynghyd â’r geiriau ‘in hoc signo vinces’ (‘yn yr arwydd hwn y byddi di’n gorchfygu’). O ganlyniad, dyfarnodd, o hynny allan, mai Cristnogaeth fyddai crefydd swyddogol ymerodraeth Rhufain. Er mwyn sicrhau unoliaeth yr ymerodraeth roedd yn rhaid cael unoliaeth oddi mewn i’r eglwys. Ond ers cenhedlaeth a mwy roedd y Cristnogion yn dadlau â’i gilydd ac yn gofyn ‘Sut un yw ein Duw ni?’, ‘Beth yn union yw natur y berthynas rhwng Duw’r Tad ac Iesu’r Mab?’

I dorri stori’n fyr a hepgor y manylion technegol, roedd un blaid, yr Ariaid (a enwyd ar ôl dyn o’r enw Arius, offeiriad yn Alexandria) yn dadlau mai un Duw oedd a bod Crist, er yn Fab Duw, eto heb fod o’r un hanfod ag Ef. Duw oedd Duw, ac roedd Gair Duw, y Logos tragwyddol, a fyddai yng nghyflawnder yr amser yn ei uniaethu ei hun ag Iesu o Nasareth, mewn gwirionedd yn greadur, y mwyaf o’r creaduriaid ond eto’n greadur. Y term a ddefnyddiwyd amdano oedd *homoiousios*, yn debyg i Dduw o ran sylwedd ond eto’n wahanol iddo.

A dyma’r blaid arall, oedd yn cael ei harwain gan ŵr o’r enw Athanasiws, ysgrifennydd esgob Alexandria, yn dweud, ‘Na! Na! Na!’ Nid un tebyg i’r Tad ond yr un un â’r Tad o ran ei hanfod; nid dim ond yn deillio oddi wrtho ond yr un un ag Ef o ran ei sylwedd; nid *homoiousios*, tebyg iddo – ond *homoousios*, yr un un ag Ef, yn rhannu’r un duwdod. Mae’r Gair tragwyddol yn dragwyddol, mae wedi bod erioed, ac nid fel creadur yr uniaethodd ei hun ag Iesu o Nasareth ond gwnaeth hynny yn ei gyflawn dduwdod. Onid oedd Ioan ei hun wedi dweud yn y prolog i’w efengyl: ‘Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a’r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a’r a wnaethpwyd.’ (Ioan 1:1–3; BWM) ‘Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod.’ (Ioan 1:2–3; BCND)

A dyna y cytunwyd arno yng Nghyngor Nicea:

> Credwn yn un Duw, y Tad
> hollgyfoethog,
> Gwneuthurwr pob peth gweledig ac
> anweledig;
> Ac yn un Arglwydd Iesu Grist,
> Mab Duw, Unig-anedig o’r Tad,
> hynny yw, allan o hanfod y Tad,
> Duw o Dduw, llewych o lewych,
> gwir Dduw o wir Dduw,
> Wedi ei genhedlu, nid ei wneuthur,
> O’r un hanfod [*homoousios*] â’r Tad,
> Trwy yr hwn y gwnaed pob peth …

Yna mae’r credo yn symud ymlaen i sôn am ymgnawdoliad Crist, yr iachawdwriaeth a gafwyd trwy ei aberth, yr atgyfodiad, yr esgyniad a’i ailddyfodiad er mwyn barnu’r byw a’r meirw ac un llinell yn unig am yr Ysbryd Glân.

Nid dyna oedd diwedd y dadlau. Er bod y credo wedi’i dderbyn yn swyddogol, parhaodd Ariaeth yn boblogaidd, ac am y genhedlaeth nesaf bu’n rhaid i Athanasiws ffoi. O’r cyfnod hwnnw y tarddodd yr ymadrodd *Athanasius contra mundum* (‘Athanasiws yn erbyn y byd’).

Fodd bynnag, erbyn canol y ganrif daethpwyd i sylweddoli os mai Arius oedd yn gywir ac mai creadur oedd y Gair, wel, dyn yn unig oedd Iesu ac nid Mab Duw. Ac os dyn yn unig oedd Iesu, dyna ddiwedd ar ein hiachawdwriaeth ni oherwydd dim ond Duw – nid rhywun tebyg i Dduw ond Duw ei hun – yn unig a allai ein hachub. A phan alwyd y cyngor eglwysig nesaf yng Nghaergystennin yn 381, cadarnhawyd awdurdod Credo Nicea ac ychwanegwyd paragraff ato yn sôn am yr Ysbryd Glân.

Os oedd y Mab o’r un sylwedd â’r Tad, rhaid bod yr Ysbryd hefyd yn rhannu’r un duwdod: ‘Credwn … yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd a’r Bywiawdwr, Sy’n deillio o’r Tad. Yr hwn gyda’r Tad a’r Mab a gyd-addolir.’ A thrwy hynny sefydlogwyd athrawiaeth y Drindod a’i gwneud yn normadol ar gyfer yr Eglwys byth oddi ar hynny.

Ond beth yw hynny i ni fel Bedyddwyr? Yn wahanol i’r Anglicaniaid a’r Catholigion a’r Eglwys Uniongred, nid ydym yn adrodd y credo wrth addoli, a’r unig gyffes sy’n angenrheidiol i ni yw’r gynharaf oll: ‘Iesu yw’r Arglwydd’. Ond mae pob un ohonom wedi ein bedyddio i enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân. Ac o’i ddadbacio, mae’r ymadrodd syml ‘Iesu yw’r Arglwydd’ – sy’n datgan duwdod Crist yn ogystal â’i ddyndod – yn arwain yn rhesymegol ac yn anorfod at athrawiaeth y Drindod.

Nid sect hereticaidd ydym ni fel Undeb Bedyddwyr Cymru, ond rhan fach, nid dibwys, o’r corff oesol hwnnw sy’n Gorff Crist ar y ddaear, yr Un Eglwys Lân Gatholig ac Apostolaidd. O ddyddiau John Myles ymlaen, trwy Gyffes 1689 hyd at y Datganiad o Egwyddor: ‘Ein Harglwydd a’n Gwaredwr Iesu Grist, Duw a amlygwyd yn y cnawd, yw’r unig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater yn ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y’i mynegwyd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd’, trindodwyr ydym ni, a thrindodwyr – gobeithio – fyddwn ni. Dyna pam y gallwn y flwyddyn hon, fel ein cyd-Gristnogion ym mhedwar ban y byd, ddiolch am Gredo Nicea.

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 23 Mawrth, am 6:45yh – Colled**
Bydd Nia Roberts yn Aberystwyth i godi ymwybyddiaeth am hunanladdiad yng nghwmni Gareth Davies, tad sy’n defnyddio’i brofiad o golled i helpu eraill. Daw’r canu mawl o’r Deml Heddwch yng Nghaerdydd, a chawn berfformiad arbennig gan y gantores boblogaidd Bronwen Lewis

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 23 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Iwan Llywelyn Jones

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 23 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Bryn Williams, Pwllheli

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 3

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Cyfiawnder hiliol**

**Darlleniad**
Galatiaid 3:28–9

**Myfyrdod**
Mae parhad hiliaeth o fewn yr Eglwys, yn ogystal â thu hwnt iddi, yn dal i danseilio ein gweledigaeth o undod Cristnogol. Rydym yn trefnu cynulliadau eciwmenaidd rhyngwladol o'r Eglwys ac yn aml yn sôn am y cysylltiadau sy'n ein rhwymo â'r ddynoliaeth gyfan. Ond eto, mae amharodrwydd a gwrthwynebiad o hyd i archwilio gwir natur hiliaeth yn fanwl fel problem strwythurol ar y cyd ac i gyfrif cost ei heffaith.

Yn ystod Wythnos 1, fe wnaethon ni ystyried y rhwystrau a allai fod yn atal pobl rhag mentro i'n mannau eciwmenaidd. Yr wythnos hon ystyriwn sut y gall hiliaeth achosi i bobl brofi rhwystrau rhag perthyn i'r mannau hynny y maent yn bresennol ynddynt oherwydd y duedd i wthio'u profiad i'r ymylon neu leihau eu dioddefaint. Mae ein darlleniad o'r Ysgrythur ar gyfer yr wythnos hon yn un a ddyfynnir yn aml yng ngwaith cyfiawnder hiliol. I lawer, mae'n mynegi'r undod y gelwir arnom i'w gyrraedd ac mae'n fynegiant pwerus o werth cydradd yng ngolwg Duw. Mae eraill yn adrodd profiadau negyddol am y darn hwn yn cael ei ddyfynnu i gyfiawnhau cael gwared ar y cyfle ar gyfer deialog ar faterion hiliaeth gyda'r awgrym na ddylem fod yn siarad am hil gan ein bod ni i gyd yr un fath.

Mae osgoi sgyrsiau am waddol a realiti presennol hiliaeth yn cyfyngu ar lwyddiant ein gwaith ar undod Cristnogol ac yn tanseilio tystiolaeth yr undod hwnnw i'r gymdeithas ehangach. Gwelsom hyn yn ymateb yr Eglwys i'r terfysgoedd a ddechreuodd ym mis Awst 2024, wedi'u hysgogi i raddau helaeth gan gasineb hiliol a senoffobig, a gwybodaeth anghywir a ledaenwyd gan grwpiau ac unigolion ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Cafwyd her arbennig i'r Eglwys wrth i rai o ysgogwyr y trais hwnnw fabwysiadu a chamddefnyddio hunaniaeth Gristnogol. Roedd yn rhybudd amlwg o ganlyniadau methu gwreiddio gwaith cyfiawnder hiliol wrth graidd bywyd a chenhadaeth yr Eglwys.

Pen-blwydd eciwmenaidd arwyddocaol arall sy'n cael ei nodi eleni yw 30 mlynedd ers sefydlu'r Sul Cyfiawnder Hiliol. Sut allem ni achub ar y cyfle hwn i fyfyrio ar y gagendor rhwng ein gweledigaeth a realiti gwaith cyfiawnder hiliol?

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Ym mha ffyrdd y mae hiliaeth yn parhau i gael effaith negyddol ar unigolion yn eich cymuned, o fewn a thu hwnt i'r Eglwys, heddiw?
- Sut mae parhad hiliaeth yn effeithio ar y gymuned gyfan?
- Ydych chi'n credu y gallai'r eglwys leol yn eich cyd-destun chi fod yn fwy rhagweithiol ar y mater hwn?

**Gweithredu**

- Allech chi fanteisio ar y cyfle i ddathlu 30 mlynedd ers sefydlu Sul Cyfiawnder Hiliol fel modd o hwyluso sgwrs am heriau cyfredol yng ngwaith cyfiawnder hiliol ac ymateb yr Eglwys?




- Chwiliwch am fodel neu fodelau o arferion da mewn gwaith cyfiawnder hiliol. Gall hyn fod mewn eglwys neu mewn cyd-destun seciwlar. Ystyriwch a oes unrhyw gamau y gallech eu cymryd i rannu'r arferion da hyn.
- Ystyriwch pa negeseuon y mae'r deunyddiau gweledol yng nghyd-destun eich eglwys leol yn eu cyfleu am hunaniaeth a pherthyn: ydyn nhw'n adlewyrchu ymateb i'r cwestiwn 'Pwy yw fy nghymydog?' sy'n cynnwys pobl o wahanol genhedloedd, ethnigrwydd a hil? A oes unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â themâu cyfiawnder hiliol?

**Gweddi**
Dduw cariadus,
maddau i ni am fod mor araf
i wynebu realiti hiliaeth yn ein Heglwys
ac yn y gymdeithas ehangach.
Rho nerth inni ddyfalbarhau
pan allem gael ein temtio
i osgoi neu roi terfyn
ar sgyrsiau anodd.
Gweddïwn dros y bobl a'r cymunedau hynny
a glwyfwyd gan waddol hiliaeth,
caethwasiaeth a gwladychu,
a thros y rhai sy'n ofni am eu bywydau
oherwydd hiliaeth a bygythiad o drais heddiw.
Helpa ni i greu gweledigaeth gyda'n gilydd
o fyd heb hiliaeth
i'n hysbrydoli i fynd yn ddyfnach i'r gwaith hwn.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru



Criw Ysgol Sul Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y capel




Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

## Galluogwr Cenhadol ar gyfer ardaloedd gwledig de'r Henaduriaeth

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad De Aberteifi a Gogledd Penfro.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 31– 35 (£32,150–£34,043) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, gan ddibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Gweithio o gartref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol, ac mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag: e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru; ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau: 22 Mawrth 2025, 4pm.**

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Gweithiwr Cymunedol (Rhan amser)

## Wedi ei leoli yn ne Wrecsam

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, yn chwilio am arloeswr Cristnogol gyda gweledigaeth.

Rydym yn bwriadu dechrau gwaith newydd o amgylch pentrefi a threfi yn ne Sir Wrecsam. Y nod yw galluogi cenhadaeth Gristnogol a hyrwyddo tystiolaeth Gristnogol, yn bennaf drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun dwyieithog.

Mae'r Henaduriaeth yn agored i drafodaethau ag unigolion sydd â galwad glir ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r gwaith hwn a sut y gallant ei gefnogi. Dylent fod yn unigolyn brwdfrydig ac ysgogol i arwain gwaith newydd.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Band 31–35 (£32,150–£34,043 pro rata) ar raddfa gyflog EBC. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Lleolir y swydd hon yn ardal de Wrecsam, a thrwy weithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627465

**Dyddiad Cau: 21ain Mawrth 2025 am 4 o'r gloch y prynhawn**

# Mae help ar gael bob amser!

Mae'n debyg eich bod yn gyfarwydd â'r enw Panel Diogelu Cydenwadol yn bennaf oherwydd, os ydych yn arweinydd eglwys, yn ymddiriedolwr neu'n wirfoddolwr mewn eglwys, byddwch wedi gwneud gwiriad DBS drwy'r Panel.

Mae'r Panel yn brysurach nag erioed y dyddiau hyn, gan wneud llawer mwy na gwiriadau DBS i helpu i wneud eglwysi yn llefydd mwy diogel i bawb. Mae gennym bartner newydd i sicrhau y gallwch bob amser gael gafael ar gymorth a chefnogaeth diogelu, hyd yn oed y tu allan i oriau swyddfa. Elusen diogelu Gristnogol annibynnol sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i amrywiaeth eang o eglwysi a sefydliadau ffydd yw Thirtyone:eight, ein partner newydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Panel wedi derbyn nifer cynyddol o alwadau gan eglwysi yn gofyn am help a chyngor i ddelio â phob math o faterion sy'n ymwneud â diogelu. Gallai hyn fod yn gofyn am gymorth gydag asesiadau risg, cymhareb oedolion:plant, recriwtio mwy diogel neu sefyllfaoedd diogelu mwy cymhleth fel troseddwyr hysbys sy'n mynychu'r eglwys, datgeliadau cam-drin cyfredol a hanesyddol, unigolion â phroblemau iechyd meddwl, ac enwi rhai prif feysydd o bryder.

Bellach mae cytundeb mewn lle sy'n galluogi eglwysi o Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i gael mynediad i'r Llinell Gymorth Diogelu Thirtyone:eight, yn enwedig y tu allan i oriau swyddfa'r Panel fel a ganlyn:

- 7am–9am a 5pm–hanner nos yn ystod yr wythnos,
- 7am–hanner nos ar benwythnosau a gwyliau banc.
- Gellir cysylltu â'r Llinell Gymorth hefyd yn ystod oriau swyddfa (h.y. 9am–5pm).

Mae'r Llinell Gymorth yn cael ei rhedeg gan dîm o weithwyr proffesiynol gofalgar sydd â phrofiad, gwybodaeth ac arbenigedd helaeth o bob rhan o'r sector diogelu (h.y. yr heddlu, gwaith cymdeithasol, addysg). Yn ogystal â hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffydd Gristnogol ac anghenion a chyd-destun eglwysi ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r tîm yn cynnig cyngor mewn ffordd sensitif a chefnogol, a hefyd yn ei ddilyn yn ysgrifenedig drwy e-bost fel bod yna gofnod o'r sgwrs/cyngor.

Ar sail cytundeb rhannu gwybodaeth, caniateir i Thirtyone:eight rannu manylion y galwadau a dderbyniwyd gan eglwysi o dan gylch gwaith y Panel (h.y. y tri enwad) gyda Julie Edwards, Swyddog Diogelu'r Panel, fel y gellir cynnig cefnogaeth ac adnoddau dilynol priodol.

Byddem yn annog yr eglwysi o fewn y tri enwad (Yr Eglwys Bresbyteraidd, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) i beidio ag oedi cyn estyn allan at y Panel neu'r Llinell Gymorth i ofyn am gymorth wrth wynebu sefyllfa ddiogelu. Mae llawer o bobl yn poeni nad yw eu pryder yn ddigon difrifol, weithiau dim ond rhyw deimlad greddfol fod rhywbeth o'i le. Ond byddem yn eich cynghori i godi'r ffôn bob amser a rhannu eich pryder.

Dyma ddyfyniad gan weinidog sydd wedi estyn allan am help ac ar ôl cael profiad cadarnhaol, nid oedd am oedi cyn cysylltu'r tro nesaf: "Mae cymorth y Panel wedi bod mor werthfawr i mi fel Gweinidog. Maent wedi bod ar gael i'n helpu gyda phryderon a materion diogelu ymarferol, rhoi cyngor pan fo angen a thawelu unrhyw bryderon." I gysylltu neu i gael mwy o wybodaeth am thirtyone:eight neu'r Panel, dilynwch y dolenni.

https://panel.cymru/cy/
01745 817584

*https://thirtyoneeight.org*
0303 003 1111

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

thirtyone:eight
Creating safer places. Together.




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru